



Tomos Owen

Oed: 24

Lleoliad: Caernarfon

Enw Busnes: Smwddis Swig

✉ swig.smoothies@gmail.com



Pam eich bod wedi penderfynnu sefydlu busnes?

Dwi wastad wedi bod ishe dechrau busnes. Mi roeddwn o hyd yn dweud wrth mam "dwi am redeg busnes ond dwi ddim yn gwybod be eto" gan dderbyn ymateb rhwystredig ganddi. Ddoth y syniad o wneud cwmni smwddis i mi pan yn America. Wrth i mi drafeilio a gweld ei bariau smwthi nhw, sylwais does yna ddim byd fel yma yn ein ardal ni. Felly, dyma ni - yr unig frand smwddi annibynnol yn Ogledd Cymru - Smwddis Swig. Faint o cŵl di hunaf?!

Sut mae Llwyddo'n Lleol/Amser i Fentro wedi eich helpu i ddatblygu?

Dwi mor lwcus o ffeindio Llwyddo'n Lleol. Roeddwn am ddechrau cychwyn y busnes jyst cyn i mi weld Llwyddo'n Lleol ar Facebook. Dwi mor falch a ddiolchgar ges fy newis gan ei fod wedi dangos i fi (heb swnio'n cliche) sut yn union i lwyddo yn lleol a di stopio fi neidio mewn "all guns blazing". Yn ogystal, mae'r platfform mae'r cynllun di rhoi i ni gyd ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn superb. Mae'r amynedd mae Elen, Jade a gweddill o'r criw wedi dangos i mi wedi bod yn wych a gallai ond diolch i bawb. Mae Amser i Fentro wedi rhoi'r cyfle yna i mi fynd ymlaen i brynu fan a rhoi'r amser gwerthfawr i mi weithio ar y busnes. Heb y fo mi roeddwn wedi ystyried gadael fy swydd llawn amser. Felly eto, diolch mawr!

Beth yw eich gobeithion i'r busnes wrth symud ymlaen?

Dwi'n gobeithio cael y fan yn barod i werthu o tuag adeg Sulgwyn. Dros yr haf a'r penwythnosau dwi fynd i fynd a'r fan i wahanol leoliadau yng Ngwynedd a Môn. Y cynllun hir dymor ydi gwneud o'n fenter llawn amser i mi gan ddod allan efo cynhyrchion newydd a thyfu'r brand. Y cynllun bellach yn yr dyfodol yw cael llwyth o fariau smwthi yng Ngwynedd, Môn, Cymru, Ewrop, America a chael tŷ gwyliau yn Los Angeles a bod yn massive Hollywood star - fel ydych chi'n gweld mae'n bwysig cadw traed ar y llawr.

Pe bai gennych un frawddeg i ddweud wrth berosn ifanc arall sy'n meddwl dechra busnes, be fysa'r frawddeg honno?

Mae'r cymorth yna i chi allu llwyddo, mae o'n gymaint o hwyl, gyda'i uchelbwyntiau ac is-bwyntiau wrth gwrs ond mi wnewch ddifaru peidio, felly ewch amdani! Be ydych chi'n disgwyl am?

@swigsmoothies

